Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Adroddiad ar y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)

Mawrth 2024



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddDCC**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDCC@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddDCC**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Adroddiad ar y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)

Mawrth 2024

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mai 2021.
Ceir ei gylch gwaith yn **www.senedd.cymru/SeneddDCC**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Huw Irranca-Davies AS**
Llafur Cymru



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru



**Samuel Kurtz AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Adam Price AS**
Plaid Cymru

---

## Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod gwaith craffu ar y Bil:



**James Evans AS**
Ceidwadwyr Cymreig

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ..... 5**

Diben y Bil ..... 5

Cefndir ..... 6

Cylch gorchwyl y Pwyllgor ..... 6

**2. Cymhwysedd deddfwriaethol ..... 8**

Cyffredinol ..... 8

Ein barn ni ..... 8

**3. Sylwadau cyffredinol ..... 9**

Yr angen am y ddeddfwriaeth ..... 9

Diben ac effaith y ddeddfwriaeth ..... 11

Y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn a fydd yn ymddangos mewn is-ddeddfwriaeth ..... 14

Diffyg diffiniad o addysg awyr agored breswyl ..... 15

Ein barn ni ..... 16

**4. Sylwadau penodol ar adrannau penodol a phwerau i wneud is-ddeddfwriaeth ..... 19**

Adran 1(2) – Darparu addysg awyr agored breswyl ..... 19

Y Cod Addysg Awyr Agored Breswyl ..... 20

Ein barn ni ..... 22

Adran 1(3) – Dyletswydd i ddyroddi canllawiau mewn cysylltiad ag addysg awyr agored breswyl ..... 23

Rhaid i'r canllawiau ddarparu y caiff addysg awyr agored breswyl ei darparu yn Gymraeg, cyn belled â'i bod ar gael, pan fo ysgol yn gwneud cais am hynny ..... 26

Ein barn ni ..... 27

Adran 2 – Cyllid ar gyfer addysg awyr agored breswyl ....29

Ein barn ni....31

Adran 5 – Dod i rym....31

Ein barn ni....32

# 1. Cyflwyniad

Ar 24 Tachwedd 2023, cafodd y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) (y Bil)[1] ei gyflwyno gan Sam Rowlands AS (yr Aelod sy'n gyfrifol). Gosododd hefyd Femorandwm Esboniadol i gyd-fynd ag ef.[2]

**1.** Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Bil at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 14 Tachwedd 2023, ac ar 21 Tachwedd 2023 pennodd 22 Mawrth 2024 fel y terfyn amser i gyflwyno adroddiad ar ei egwyddorion cyffredinol.[3]

**2.** Ym mis Tachwedd 2023, cyhoeddodd yr Aelod sy'n gyfrifol ddatganiad o fwriad polisi ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth o dan y Bil.[4]

## Diben y Bil

**3.** Yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r Aelod sy'n gyfrifol yn dweud mai diben y Bil yw "galluogi pob disgybl mewn ysgolion a gynhelir i brofi addysg awyr agored breswyl."[5]

**4.** Yn ôl y nodiadau esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil, mae tair adran o sylwedd i'r Bil:

- mae adran 1 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod pob disgybl yn profi addysg awyr agored breswyl o leiaf unwaith yn ystod ei gyfnod yn yr ysgol;
- mae adran 2 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu cyllid ychwanegol digonol i awdurdodau lleol i sicrhau y gall ysgolion ddarparu addysg awyr agored breswyl fel sy'n ofynnol gan y Bil; ac
- mae adran 3 yn gwneud diwygiad canlyniadol technegol i ddarparu na chaniateir codi tâl ar ddisgyblion am fwyd a llety ar gyfer addysg awyr

[1] Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru), fel y'i cyflwynwyd
[2] Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru), Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol, Tachwedd 2023
[3] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru), Tachwedd 2023
[4] Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Datganiad o fwriad polisi ar gyfer is-ddeddfwriaeth a chanllawiau sydd i'w gwneud o dan y Bil hwn, Tachwedd 2023
[5] Memorandwm Esboniadol, paragraff 8

agored breswyl a ddarperir o dan *Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021* ("Deddf 2021").[6]

## Cefndir

**5.** Mae Rheol Sefydlog 26.87 yn darparu, o bryd i'w gilydd, bod yn rhaid i'r Llywydd gynnal balot i benderfynu ar enw Aelod heblaw aelod o'r llywodraeth a gaiff ofyn am gytundeb i gyflwyno Bil (Bil Aelod).[7]

**6.** Ar 13 Gorffennaf 2022, cyhoeddodd y Dirprwy Lywydd fod cynnig yr Aelod sy'n gyfrifol am Fil Addysg Awyr Agored (Cymru) wedi bod yn llwyddiannus mewn balot Bil Aelod.[8]

**7.** Ar 17 Awst 2022, yn unol â Rheol Sefydlog 26.91A, gosododd yr Aelod sy'n gyfrifol Femorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil arfaethedig. O fewn hwn, dywedodd y byddai'r Bil arfaethedig "yn golygu y bydd addysg awyr agored yn newid o fod yn weithgaredd sy'n cyfoethogi i fod yn hawl o dan y cwricwlwm, gan gael gwared ar yr ansicrwydd yn ei gylch o ran cyllid awdurdodau lleol, a sicrhau tegwch i blant a phobl ifanc Cymru."[9]

**8.** Ar 26 Hydref 2022, cafodd yr Aelod sy'n gyfrifol gytundeb y Senedd i gyflwyno'r Bil.[10] Yn ystod y ddadl ar y cynnig i geisio cytundeb y Senedd, dywedodd Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg (y Gweinidog), na allai Llywodraeth Cymru gefnogi'r Bil fel y'i cynigiwyd.[11]

## Cylch gorchwyl y Pwyllgor

**9.** Cylch gorchwyl y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 21 a 26C. Caiff y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater sy'n ymwneud â deddfwriaeth, datganoli, y cyfansoddiad, cyfiawnder, a materion allanol sydd o fewn cymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â'r cymhwysedd hwnnw, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth.

**10.** Wrth graffu ar Filiau a gyflwynir i'r Senedd, byddwn yn ystyried:

[6] Memorandwm Esboniadol, paragraff 419
[7] Gweler y Canllaw ar y Broses ar gyfer Bil Aelod, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2021, i gael rhagor o wybodaeth am y weithdrefn Biliau Aelodau.
[8] Cyfarfod Llawn, 13 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion
[9] Memorandwm Esboniadol a osodwyd o dan Reol Sefydlog 26.91A: Bil Addysg Awyr Agored (Cymru), Awst 2022. Wedi hynny, newidiwyd enw byr y Bil i Fil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru).
[10] Cyfarfod Llawn, 26 Hydref 2022, Cofnod y Trafodion, eitem 6
[11] Cyfarfod Llawn, 26 Hydref 2022, Cofnod y Trafodion [206]

- materion sy'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd, gan gynnwys cydnawsedd â'r hawliau a warchodir gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol;
- y cydbwysedd rhwng y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn a fydd yn ymddangos mewn is-ddeddfwriaeth;
- a yw'r weithdrefn ddeddfwriaethol briodol wedi cael ei dewis mewn perthynas â rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth; ac
- unrhyw fater arall rydym yn ystyried ei fod yn berthnasol i ansawdd deddfwriaeth.

**11.** Clywsom dystiolaeth gan y Gweinidog mewn cysylltiad â'r Bil ar 22 Ionawr 2024.[12] Buom hefyd yn ystyried papur a gyflwynwyd gan y Gweinidog mewn cysylltiad â'r Bil.[13]

**12.** Clywsom dystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil ar 5 Chwefror 2024.[14]

[12] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 22 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion
[13] LJC(6)-03-24, Papur 18 – Papur Tystiolaeth – Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru), Rhagfyr 2023
[14] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion

# 2. Cymhwysedd deddfwriaethol

Mae'r Aelod sy'n gyfrifol yn fodlon y byddai'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.[15]

## Cyffredinol

**13.** Buom yn ystyried y Bil o dan fodel cadw pwerau cymhwysedd deddfwriaethol, fel y'i nodir yn adran 108A o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006).

**14.** Dywedodd y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS, y Llywydd, y byddai'r Bil fel y'i cyflwynwyd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.[16]

**15.** Cadarnhaodd yr Aelod sy'n gyfrifol i ni mewn tystiolaeth lafar ei fod o'r farn bod darpariaethau'r Bil yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.[17]

**16.** Dywedodd y Gweinidog wrthym hefyd ei fod yn ystyried bod darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol.[18]

## Ein barn ni

**17.** Rydym yn nodi'r dystiolaeth mewn perthynas â materion o ran cymhwysedd deddfwriaethol gan yr Aelod sy'n gyfrifol, a'r Gweinidog.

**18.** Nodwn hefyd fod y Llywydd wedi datgan y byddai darpariaethau'r Bil, yn ei barn hi, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

[15] Memorandwm Esboniadol, Datganiad ynghylch Cymhwysedd Deddfwriaethol
[16] Senedd Cymru, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Datganiad y Llywydd ar Gymhwysedd Deddfwriaethol, 24 Tachwedd 2023
[17] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion [24]
[18] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 22 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [7]

# 3. Sylwadau cyffredinol

## Yr angen am y ddeddfwriaeth

**19.** Mae'r Aelod sy'n gyfrifol yn datgan yn y Memorandwm Esboniadol y bydd y Bil yn "newid addysg awyr agored o fod yn rhywbeth sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm, sy'n aml yn cael ei ystyried yn rhywbeth 'braf i'w gael', i fod yn hawl o dan y cynnig addysg".[19] Mae'n nodi y bydd y Bil hefyd yn darparu ar gyfer mynd ati mewn modd cydgysylltiedig sydd wedi'i ariannu i roi cyfle i gael addysg awyr agored breswyl.[20]

**20.** Mae'n datgan felly yn y Memorandwm Esboniadol y bydd y Bil yn mynd i'r afael â dwy sefyllfa, sef:

- "nad yw pob ysgol yn trefnu cyrsiau addysg awyr agored breswyl"; a
- "gall anghydraddoldeb economaidd a ffactorau eraill olygu bod plant a phobl ifanc ar eu colled".[21]

**21.** Cyfiawnhaodd yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, mewn tystiolaeth lafar, yr angen am y Bil:

> *"As the Bill lays out, I believe every child should have this opportunity [to receive residential outdoor education] provided to them at least once in their schooling. The reason why I think legislation is necessary for that is to provide that guarantee for those young people."*[22]

**22.** Dywedodd y Gweinidog yn ei bapur tystiolaeth, fodd bynnag, ei fod yn credu bod y Bil yn ddiangen, am fod:

> *"… gan ysgolion y pwerau cyfreithiol i ddarparu addysg awyr agored breswyl eisoes, os byddant yn dymuno gwneud hynny. … Mae'r Bil yn gwneud diwygiadau i Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Deddf 2021) nad ydynt yn briodol am nad ydynt yn cyd-fynd â'r cynllun deddfwriaethol nac egwyddorion y Ddeddf.*
>
> *Mae'r cwricwlwm newydd yn gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer profiadau awyr agored ac nid yw'r Memorandwm*

[19] Memorandwm Esboniadol, paragraff 9
[20] Memorandwm Esboniadol, paragraff 11
[21] Memorandwm Esboniadol, paragraff 15
[22] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion [5]

> *Esboniadol ar gyfer y Bil yn cyflwyno'r achos o blaid cynnig addysg awyr agored breswyl yn ddigonol. Bydd y Bil yn gwneud addysg awyr agored breswyl yn orfodol."*[23]

**23.** Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd y Gweinidog, os mai bwriad y Bil yw darparu dull gorfodol, y gellid defnyddio pwerau gwneud rheoliadau presennol i sicrhau'r canlyniad hwnnw; er os mai ei fwriad yw darparu "cynnig", y byddai angen deddfwriaeth sylfaenol.[24]

**24.** Dywedodd y Gweinidog y canlynol wrthym hefyd:

> *"There's an outdoor learning theme in the curriculum … one of the conversations I've had with the Member—and I've repeated this in the Chamber—is I think there's a real opportunity for us to develop curriculum guidance that enables that to become a larger feature of the curriculum, under the existing regime that we have."*[25]

**25.** Gofynasom i'r Aelod sy'n gyfrifol a oedd yn credu y gellid cyflawni nodau'r Bil drwy ddulliau anstatudol neu drwy is-ddeddfwriaeth. Yn ei ymateb, dywedodd fel a ganlyn:

> *"I am aware there are provisions in the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021 that give the Welsh Ministers power by regulations to amend areas of learning and experience, which include, of course, residential outdoor education as part of the curriculum."*[26]

**26.** Dywedodd wrthym, fodd bynnag, y byddai deddfwriaeth sylfaenol yn sicrhau y byddai cynnig addysg awyr agored breswyl yn orfodol, ac y byddai hefyd yn sicrhau bod yr orfodaeth wedi'i diogelu at y dyfodol.[27]

**27.** Dywedodd swyddog a oedd gyda'r Aelod sy'n gyfrifol hefyd y byddai deddfwriaeth sylfaenol yn angenrheidiol i gyflawni diben adran 2 o'r Bil, a fydd yn

[23] LJC(6)-03-24, Papur 18 – Papur Tystiolaeth – Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru), Rhagfyr 2023, paragraffau 2.1–2.2
[24] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 22 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [15]
[25] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 22 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [32]
[26] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion [7]
[27] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion [7]

gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ariannu'r ddarpariaeth addysg awyr agored breswyl yn unol â gofynion y Bil.[28]

## Diben ac effaith y ddeddfwriaeth

**28.** Fel y nodwyd eisoes, yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r Aelod sy'n gyfrifol yn dweud mai diben y Bil yw "galluogi pob disgybl mewn ysgolion a gynhelir i brofi addysg awyr agored breswyl."[29]

**29.** O fewn y Memorandwm Esboniadol, mae'r Aelod sy'n gyfrifol hefyd yn datgan, o dan ddarpariaethau'r Bil, y bydd plant a phobl ifanc "yn cael eu hannog – ond nid yn cael eu gorfodi – i gymryd rhan mewn addysg awyr agored breswyl."[30]

**30.** Dywedodd y Gweinidog wrthym, fodd bynnag, fod y Memorandwm Esboniadol ar y Bil yn mynd yn groes i amcanion y Bil:

> *"The EM states that the key aim of the Bill is to offer residential outdoor education to pupils in mainstream. So, there's an inconsistency with the actual effect of the Bill, because the Bill itself makes it a compulsory part of the curriculum."*[31]

**31.** Yn ei bapur tystiolaeth, dywedodd y Gweinidog y canlynol hefyd:

> *"Mae'r Bil yn mabwysiadu un dull gweithredu sy'n addas i bawb drwy ei gwneud yn ofynnol, i bob pwrpas, i bob ysgol a lleoliad gynnig addysg awyr agored breswyl ac i bob disgybl ymgymryd ag addysg awyr agored breswyl. Bydd y Bil yn gwneud addysg awyr agored breswyl yn orfodol ac, felly, mae'n tanseilio'r hyblygrwydd y mae Deddf 2021 yn ei gynnig i ysgolion a lleoliadau eraill ar hyn o bryd."*[32]

**32.** Mewn ymateb i farn y Gweinidog, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol y canlynol wrthym:

> *"The legal duty that the Bill imposes is for the Welsh Ministers to take all reasonable steps to ensure that a free course of residential outdoor education is provided once to a child at a*

---

[28] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion [15, 17]
[29] Memorandwm Esboniadol, paragraff 8
[30] Memorandwm Esboniadol, paragraff 13
[31] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 22 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [13]
[32] LJC(6)-03-24, Papur 18 – Papur Tystiolaeth – Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru), Rhagfyr 2023, paragraff 3.3

> *maintained school. So, the compulsory part is that it's provided to a child in a school, and this gives each child the opportunity to take up that provision."*[33]

**33.** Amlygodd yr Aelod sy'n gyfrifol hefyd fod mecanweithiau presennol yn caniatáu i ddisgyblion beidio â chymryd rhan yn y cynnig darpariaeth addysg awyr agored breswyl; bod y mecanwaith presennol yn cael ei ddarparu mewn rheoliadau a wneir o dan adran 42 o Ddeddf 2021.[34]

**34.** Mae adran 42 o Ddeddf 2021 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i alluogi pennaeth ysgol i ddatgymhwyso dros dro rai elfennau, neu bob un, o elfennau'r cwricwlwm mewn cysylltiad â disgybl unigol.

**35.** Gwnaeth Gweinidogion Cymru Reoliadau Addysg (Eithriadau Dros Dro ar gyfer Disgyblion a Phlant Unigol) (Cymru) 2022 (Rheoliadau 2022) gan ddefnyddio'r pŵer yn adran 42 o Ddeddf 2021.[35]

**36.** Mae rheoliad 4(1) o Reoliadau 2022 yn darparu na chaiff pennaeth ddatgymhwyso'r cwricwlwm dros dro mewn perthynas â disgybl oni bai bod y pennaeth yn fodlon:

- nad yw am y tro yn briodol gweithredu'r cwricwlwm ar gyfer y disgybl hwnnw; ac
- bod yr amgylchiadau sy'n arwain at y farn honno yn debygol o newid yn sylweddol fel y bydd, o fewn 6 mis i'r dyddiad y daw'r datgymhwysiad i rym, yn briodol gweithredu'r cwricwlwm ar gyfer y disgybl hwnnw.

**37.** Mae rheoliad 10 o Reoliadau 2022 yn darparu y caiff disgybl, neu riant disgybl, ofyn i bennaeth wneud datgymhwysiad o'r fath; mae hefyd yn darparu bod yn rhaid i gais gynnwys y rhesymau dros ei wneud.

**38.** Rhoddodd y Gweinidog wybod am y pryder a ganlyn ynghylch awgrym yr Aelod sy'n gyfrifol y gallai rheoliadau o dan adran 42 o Ddeddf 2021 gael eu defnyddio fel mecanwaith i ddisgybl "beidio â chymryd rhan" yn y cynnig darpariaeth addysg awyr agored breswyl fel rhan o'r cwricwlwm, fel y cynigir gan y Bil:

> *"Because of the way the curriculum is designed and devised, it's not really expected that [the power within section 42 of the*

[33] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion [47]
[34] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion [47]
[35] https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2022/670/contents/made

> *2021 Act] will be used very much because the curriculum is an organic thing … the risk is—and I think it's a pretty significant risk—that section 42 will start doing all the heavy lifting for this new part of the legislation, and you've got to give reasons for why you want to exempt your child from a part of the curriculum that is mandatory. And you can imagine the sorts of reasons put forward for not wanting to send a child away on a residential course—there might be costs implications and all sorts of sensitive issues. I think, whilst it exists as a mechanism, it's a pretty blunt instrument for doing something that, frankly, it wasn't intended to do …".*[36]

**39.** Gofynasom i'r Aelod sy'n gyfrifol a oedd wedi ystyried dilyn dull mwy rhagnodol, lle y byddai mecanwaith dewis peidio â chymryd rhan yn cael ei osod ar wyneb y Bil, yn hytrach na dibynnu ar y mecanwaith o fewn adran 42 o Ddeddf 2021. Yn ei ymateb, dywedodd fel a ganlyn:

> *"… the intention [of the Bill] is that it is mandatory for the provision to be made available, but not all children should be compelled to have to go on that experience. So, in terms of the mechanism [in section 42 of the 2021 Act] itself, I think it's appropriate to use it. It exists already. I think it removes any complication or complexity by shoehorning in another piece of legislation where section 42 delivers what's intended within this.*
>
> *… section 42 also outlines how this process should work and there's proper records kept of all this as well, which is an important element of … tracking whether children have had this opportunity presented to them or not, and the reasons why they may not wish to take up the offer. Section 42 already allows for that appropriate track and record keeping to be kept as well, both within the local authority and with the school itself, which perhaps doesn't sit with you as LJC, but is an important part of how, practically, this legislation could be delivered as well."*[37]

**40.** Dywedodd swyddog a oedd gyda'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil y canlynol hefyd:

[36] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 22 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [82]
[37] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion [60–61]

> *"... the section 42 regulations are already in place, so there wouldn't need to be any further regulations made by the Welsh Ministers in order to give effect to that. That's another reason why we didn't want to potentially confuse the issue by having two powers that would potentially conflict within the curriculum and assessment Act."*[38]

## Y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn a fydd yn ymddangos mewn is-ddeddfwriaeth

**41.** Mae'r Bil yn cynnwys 6 adran ac mae'n cynnwys:

- un pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi cod;
- un pŵer iddynt ddyroddi canllawiau; ac
- un pŵer iddynt ddyroddi rheoliadau i wneud darpariaeth drosiannol.

**42.** Gofynasom i'r Gweinidog am ei farn ar y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil, a'r hyn a gaiff ei adael i Weinidogion Cymru benderfynu arno drwy is-ddeddfwriaeth. Mewn ymateb, dywedodd wrthym nad oedd yn credu bod cydbwysedd priodol yn cael ei gyflawni, a dywedodd y canlynol:

> *"The purpose of the Bill is to have a mechanism ... to deliver an increase in the provision of residential outdoor education, but then does not go on to define what residential outdoor education is, which I think is a significant weakness. But then, in addition to that, it provides for the code, which has a carte-blanche approach, really, in terms of what Ministers might put in that code, which I think is not proportionate. And the guidance, in a sense, goes a step further, because the guidance includes mandatory provisions where there are no equivalent mandatory provisions in the Bill itself, which is clearly challenging, at least from a scrutiny point of view, and in other ways as well."*[39]

**43.** Gofynasom yr un cwestiwn i'r Aelod sy'n gyfrifol. Dywedodd wrthym ei fod yn ystyried bod y cydbwysedd yn iawn, er iddo gyfaddef bod pryderon o bosibl ynghylch gallu'r Senedd i graffu ar rai o'r manylion yn y canllawiau. Dywedodd

[38] Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion [62]
[39] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 22 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [26]

wrthym hefyd ei fod yn teimlo bod y Bil yn dilyn dull Deddf 2021, lle y mae llawer o fanylion yn y cod a'r canllawiau.[40]

### Diffyg diffiniad o addysg awyr agored breswyl

**44.** Nid yw'r Bil yn cynnwys diffiniad o addysg awyr agored breswyl ar wyneb y Bil. Ym mharagraff 20 o'r Memorandwm Esboniadol, fodd bynnag, mae'r Aelod sy'n gyfrifol yn darparu'r diffiniad a ganlyn:

> *"Mae cyrsiau addysg awyr agored breswyl yn cwmpasu ystod o weithgareddau sy'n digwydd mewn lleoliad preswyl, sy'n cynnwys cyfranogwyr sy'n byw gyda'i gilydd mewn cymuned dros dro oddi cartref. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys bod yn yr awyr agored fel rhan ganolog o'r profiad, gallant fod ag elfen heriol, anturus sy'n aml yn cynnwys rhywfaint o weithgarwch corfforol, bob amser yn parchu'r amgylchedd naturiol, ac yn ceisio defnyddio'r amgylchedd awyr agored fel cyfrwng i drawsnewid y profiad yn wybodaeth, sgiliau, agweddau ac ymddygiad. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys chwaraeon cydnabyddedig fel dringo, caiacio, cyfeiriannu neu hwylio, gweithgareddau hamdden awyr agored fel gwersylla neu gerdded bryniau, a gweithgareddau awyr agored sydd wedi'u cynllunio'n bwrpasol ar gyfer eu heffaith addysgol megis cyrsiau rhaffau, llwybrau a heriau menter."*

**45.** Ym mharagraff 21 o'r Memorandwm Esboniadol, mae'r Aelod sy'n gyfrifol yn nodi y gall Llywodraeth Cymru benderfynu darparu diffiniad yn y cod statudol neu'r canllawiau, neu'r ddau, sydd i'w dyroddi o dan Ddeddf 2021, fel y'i diwygiwyd gan y Bil.

**46.** Fel y cyfeiriwyd ato'n flaenorol, dywedodd y Gweinidog wrthym fod diffyg diffiniad ar wyneb y Bil yn wendid sylweddol.[41]

**47.** Gofynasom i'r Aelod sy'n gyfrifol egluro pam nad oes diffiniad o addysg awyr agored breswyl ar wyneb y Bil. Ymatebodd fel a ganlyn:

> *"… paragraphs 20 and 21 within the EM set that [definition] out. And it's open to the Minister to deal with the issue when issuing guidance under section 71A of the Bill, as I've outlined. The code could also issue this detail as well, if the Minister desired to have*

[40] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion [28]
[41] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 22 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [26]

> *that within the code. … my intention certainly is not to seek to micromanage and have exact detail for how every experience should be for every single child. So, going back to the Curriculum and Assessment (Wales) Act, following the same spirit of that Act, which is, headteachers, teachers, trusting them to understand and know what's best for the children in front of them; the experience may differ slightly from one class or one school to the other, because that is what is best for them."*[42]

**48.** Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol hefyd nad oedd nifer o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar gynigion y Bil o reidrwydd o blaid cynnwys diffiniad o addysg awyr agored breswyl.[43]

## Ein barn ni

**49.** Rydym yn nodi'r dystiolaeth a gawsom gan yr Aelod sy'n gyfrifol a'r Gweinidog ynghylch a oes angen y Bil ai peidio, ei ddiben a'i effaith, a'r cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn a fydd yn ymddangos mewn is-ddeddfwriaeth.

**50.** Rydym yn cydnabod datganiad yr Aelod sy'n gyfrifol bod y Bil yn ceisio mynd i'r afael â diffygion tybiedig yn y ddarpariaeth addysg awyr agored breswyl, drwy geisio gorfodi darparu "cynnig" addysg o'r fath i bob disgybl mewn ysgolion a gynhelir.

**51.** Rydym yn nodi barn y Gweinidog y gallai pwerau gwneud rheoliadau presennol gael eu defnyddio i ddarparu addysg awyr agored breswyl fel rhan orfodol o'r cwricwlwm, tra byddai angen deddfwriaeth sylfaenol i ddarparu "cynnig" addysg o'r fath. Rydym hefyd yn nodi barn y Gweinidog y caniateir datblygu canllawiau o dan Ddeddf 2021 i sicrhau bod addysg awyr agored breswyl yn dod yn nodwedd fwy o'r cwricwlwm.

**52.** Nodwn hefyd, a chydnabyddwn, ddatganiad yr Aelod sy'n gyfrifol bod deddfwriaeth sylfaenol yn angenrheidiol i gyflawni diben polisi cysylltiedig adran 2 o'r Bil, a fydd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ariannu'r ddarpariaeth addysg awyr agored breswyl yn unol â gofynion y Bil.

**53.** Rydym yn nodi barn y Gweinidog bod y Bil yn ceisio gwneud diwygiadau i Ddeddf 2021 nad ydynt yn briodol gan nad ydynt yn cyd-fynd â'r cynllun

[42] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion [30]
[43] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion [31]

deddfwriaethol nac egwyddorion y Ddeddf honno, a thrwy wneud addysg awyr agored breswyl yn rhan orfodol o'r cwricwlwm mae'n tanseilio hyblygrwydd y Ddeddf honno.

**Casgliad 1.** Yn ein barn ni, effaith y Bil yw gwneud addysg awyr agored breswyl yn rhan orfodol o'r cwricwlwm yng Nghymru.

**54.** Rydym yn nodi barn yr Aelod sy'n gyfrifol bod rheoliadau presennol a wnaed o dan adran 42 o Ddeddf 2021 yn cyflwyno mecanwaith i ddisgyblion ddewis peidio â chael darpariaeth addysg awyr agored breswyl. Fodd bynnag, nid ydym yn credu bod y rheoliadau hynny'n cyflwyno mecanwaith priodol, a hynny am ddau reswm.

**55.** Yn gyntaf, dim ond mecanwaith dros dro y mae Rheoliadau 2022 yn ei ddarparu i ddatgymhwyso'r cwricwlwm mewn perthynas â disgybl: mai dim ond os yw'r amgylchiadau perthnasol sy'n ymwneud â'r disgybl hwnnw'n debygol o newid yn sylweddol fel y bydd, o fewn 6 mis i'r dyddiad y daw datgymhwysiad i rym, yn briodol gweithredu'r cwricwlwm ar gyfer y disgybl hwnnw y caniateir gwneud datgymhwysiad.

**56.** Yn ail, yn sgil bwriad datganedig yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil – sef bod "cynnig" syml addysg awyr agored breswyl yn cael ei ddarparu i bob disgybl – nid ydym yn credu bod Rheoliadau 2022 yn darparu mecanwaith cymesur ar gyfer gwrthod y "cynnig" hwnnw. O dan y Rheoliadau hynny, os yw disgybl neu ei riant yn dymuno gwneud cais i ddatgymhwyso'r cwricwlwm dros dro, y bydd yn ofynnol iddynt egluro'r rhesymau dros wneud hynny i bennaeth, er mwyn galluogi'r pennaeth i benderfynu a ddylid cymeradwyo'r cais.

**57.** Rydym hefyd yn nodi bod y Gweinidog yn ystyried bod y mecanwaith a ddarperir o dan adran 42 o Ddeddf 2021 yn 'offeryn di-fin' i gyflawni bwriad polisi'r Bil.

**Casgliad 2.** Nid ydym yn credu bod y Bil fel y'i drafftiwyd yn bodloni bwriad polisi'r Aelod sy'n gyfrifol i'r graddau:

- mae'n dibynnu ar y pŵer gwneud rheoliadau o fewn adran 42 o *Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021* i geisio cyflawni'r bwriad polisi hwnnw; ac
- nid yw Rheoliadau Addysg (Eithriadau Dros Dro ar gyfer Disgyblion a Phlant Unigol) (Cymru) 2022, sef y rheoliadau presennol a wneir wrth arfer y pŵer hwnnw, yn fodd priodol o gyflawni'r bwriad polisi hwnnw.

**Argymhelliad 1.** Er mwyn bodloni bwriad polisi'r Aelod sy'n gyfrifol ac i roi eglurder ar wyneb y Bil, dylid ei ddiwygio i gynnwys mecanwaith a fyddai'n galluogi disgybl, neu ei riant, i ddewis peidio â chael cwrs addysg awyr agored breswyl.

**58.** Rydym yn nodi bod anghytundeb rhwng yr Aelod sy'n gyfrifol a'r Gweinidog ynghylch a yw'r Bil yn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng y wybodaeth sydd ar wyneb y Bil a'r hyn a fydd yn ymddangos mewn is-ddeddfwriaeth.

**59.** Rydym yn cydnabod barn yr Aelod sy'n gyfrifol bod y Bil yn dilyn dull Deddf 2021, lle y mae llawer o fanylion wedi'u cynnwys mewn codau statudol a chanllawiau a ddyroddir o dan y Ddeddf honno.

**60.** Rydym hefyd yn nodi datganiad yr Aelod sy'n gyfrifol nad yw'n dymuno 'mân-reoli' addysgwyr drwy gynnwys diffiniad o addysg awyr agored breswyl ar wyneb y Bil.

**61.** Ar y mater hwn, fodd bynnag, rydym yn cytuno â barn y Gweinidog bod diffyg diffiniad o addysg awyr agored breswyl ar wyneb y Bil yn wendid. Gan fod y term hwn yn cael ei ddefnyddio ym mhob rhan o'r Bil, credwn, er budd hygyrchedd y gyfraith, y dylid cynnwys diffiniad ar ei wyneb, a allai ganiatáu ar gyfer dehongliad priodol naill ai gan addysgwyr, neu gan Weinidogion Cymru o fewn y cod a'r canllawiau a ddyroddir o dan y Bil.

**Argymhelliad 2.** Dylid diwygio'r Bil i gynnwys diffiniad o addysg awyr agored breswyl.

**62.** Nodir ein barn am bwerau penodol i wneud is-ddeddfwriaeth yn yr adran nesaf o'r adroddiad.

# 4. Sylwadau penodol ar adrannau penodol a phwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

## Adran 1(2) – Darparu addysg awyr agored breswyl

**63.** Mae adran 1(2) o'r Bil yn mewnosod adran 64A newydd yn Neddf 2021. Mae is-adran (1) o’r adran newydd yn darparu bod:

> *“Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod cwrs addysg awyr agored breswyl yn cael ei ddarparu unwaith, yn rhad ac am ddim fel rhan o gwricwlwm, i ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir.”*

**64.** Mewn cysylltiad â’r ddarpariaeth hon, mae’r Aelod sy’n gyfrifol yn datgan yn y Memorandwm Esboniadol y:

> *“… gall Gweinidogion benderfynu ar y ffordd orau o weithredu hyn. Nid lle Llywodraeth Cymru o reidrwydd fydd darparu addysg awyr agored breswyl ei hun ond bydd rhaid iddi gymryd camau rhesymol i sicrhau ei bod yn cael ei darparu.”*[44]

**65.** Gofynasom i’r Gweinidog amlinellu pa gamau rhesymol eraill a allai fod ar gael i Weinidogion Cymru i gyflawni amcanion y Bil. Yn ei ymateb, dywedodd fel a ganlyn:

> *“It isn't clear to me, above and beyond providing funding and providing a code and providing guidance [as required by the Bill], what other steps are available to Welsh Ministers to take. We obviously aren't in a position to provide the service directly, so it isn't clear to me that there's anything in addition to that that we could reasonably do, and even those steps don't in fact ensure the provision of that service.”*[45]

**66.** Rhoesom gyfle i’r Aelod sy’n gyfrifol ymateb i farn y Gweinidog ar y ddarpariaeth hon. Yn ei ymateb, dywedodd y canlynol wrthym:

> *“… it’s not unusual to have that phrase, 'taking all reasonable steps', within legislation … if the phrase, 'taking all reasonable steps' wasn't within the Bill … it would have to put an absolute*

[44] Memorandwm Esboniadol, paragraff 117
[45] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 22 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [29]

*duty on the Minister to have this provision in place or to make sure this is provided, and I think that would be a step too far, quite honestly, an absolute duty, because there will be circumstances where it may not be appropriate for that provision to be there.*

*… it's ultimately up to the Minister to decide how that's best interpreted and how it's best provided … beyond that, it would be for the courts to decide whether a Minister has taken all reasonable steps to deliver what's intended in legislation.”*[46]

## Y Cod Addysg Awyr Agored Breswyl

**67.** Mae Deddf 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi tri chod: Cod yr Hyn sy'n Bwysig, y Cod Cynnydd a'r Cod ACRh[47]. Ni fydd cwricwlwm yn cydymffurfio â'r Ddeddf oni bai ei fod yn cyd-fynd â'r codau hyn.[48]

**68.** Mae adran 64A(5) newydd o Ddeddf 2021, i'w mewnosod gan y Bil, yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi cod ychwanegol – y 'Cod Addysg Awyr Agored Breswyl' (y Cod) – sy'n nodi'r ffordd y mae cwricwlwm i ddarparu ar gyfer addysg awyr agored breswyl. Mae is-adran (7) yn darparu na fydd cwricwlwm yn cydymffurfio â Deddf 2021 oni bai ei fod yn cyd-fynd â'r Cod.

**69.** Yn y datganiad o fwriad y polisi, mae'r Aelod sy'n gyfrifol yn dweud y bydd y Cod "yn helpu ysgolion i ddatblygu eu cwricwlwm a sicrhau cysondeb ledled y wlad o ran y modd y darperir addysg awyr agored breswyl."[49]

**70.** Mae'r Aelod sy'n gyfrifol hefyd yn darparu yn y datganiad o fwriad y polisi y cyfiawnhad a ganlyn dros y cynnig i gynnwys manylion o'r fath yn y Cod, yn hytrach nag ar wyneb y Bil:

*"Mae'n debygol y bydd angen diwygiadau dros amser i adlewyrchu newidiadau o ran anghenion disgyblion, newidiadau yn y sector addysg awyr agored breswyl, neu newidiadau o ran cymdeithas."*[50]

---

[46] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion [38, 40]
[47] Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb
[48] Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, adran 6 i adran 8
[49] Datganiad o fwriad y polisi, tudalen 3
[50] Datganiad o fwriad y polisi, tudalen 3

**71.** Gofynnwyd i'r Gweinidog am ei farn ar ddarpariaethau'r Bil mewn cysylltiad â'r Cod. Yn ei ymateb, dywedodd fel a ganlyn:

> *"The thinking behind that small number of codes, which Ministers are required to publish [under the 2021 Act], is that they deal with issues that are, on the one hand, fundamental, but also of broad application across the curriculum, which is the sort of thing you would expect a code to provide for. … What this Bill seeks to do is introduce a new code into that, which operates, I think, at a very, very different level from the two types of code that we've just been talking about. In a sense, outdoor learning is a subset of the curriculum generally, and residential outdoor centres are a subset of outdoor learning. So, it's a level of granularity that is very, very far removed from the current arrangements in the Bill. So, I think there's a tension between the amendments and the existing architecture of the Bill, in that sense."*[51]

**72.** Tynnodd y Gweinidog sylw hefyd at 'fater eilaidd' yn deillio o'r ddarpariaeth hon:

> *"… if the Senedd concludes, that a code for something that is this specific, if you like, is appropriate in that legislation, I think it would be a challenge for us to distinguish rationally any future code for an issue that is of similar specificity."*[52]

**73.** Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym ei fod yn anghytuno â barn y Gweinidog, fel a ganlyn:

> *"The use of codes is used throughout the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021—the Minister knows that full well. And a specific example is the RSE code, which sets out a huge amount of detail within the Act. It follows the premise of the Act itself. It's not seeking to do anything unusual or especially different from what currently exists for the new curriculum …".*[53]

**74.** Ymhelaethodd yr Aelod sy'n gyfrifol hefyd ar y gymhariaeth hon â'r Cod ACRh:

[51] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 22 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [31–32]
[52] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 22 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [32]
[53] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion [95]

> *"I don't want to start ranking one code against the other, or one part of the curriculum against the other. But I think there's more and more evidence—and in the explanatory memorandum I've set out, it shows this—that those outdoor experiences, residential and just in general, are very important to children's learning and development into young adults."*[54]

**75.** O dan adran 76 o Ddeddf 2021, a gaiff ei diwygio gan y Bil, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ar fersiwn o'r Cod cyn ei osod gerbron y Senedd o dan y weithdrefn negyddol. O ran cymhwyso'r weithdrefn negyddol, yn y Memorandwm Esboniadol mae'r Aelod sy'n gyfrifol yn nodi fel a ganlyn:

> *"Mae'r weithdrefn negyddol yn briodol oherwydd natur cynnwys y Cod a'r gofyniad ar bob ysgol a lleoliad i'w gynnwys yn eu cwricwlwm.*
>
> *Mae defnyddio'r weithdrefn negyddol hefyd yn alinio'r Cod â'r weithdrefn sydd ar waith ar gyfer cyhoeddi'r Cod yr Hyn sy'n Bwysig a'r Cod Dilyniant y mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru eu cyhoeddi o dan Ddeddf 2021."*[55]

**76.** Dywedodd y Gweinidog wrthym ei fod yn ystyried bod y gofyniad i ymgynghori ar y Cod, a gweithdrefn graffu'r Senedd sy'n gysylltiedig ag ef, yn gyson â'r ddeddfwriaeth bresennol.[56]

## Ein barn ni

**77.** Rydym yn nodi'r dystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol a'r Gweinidog mewn cysylltiad ag adran 1(2) o'r Bil.

**78.** Yn benodol, nodwn farn y Gweinidog ei bod yn aneglur pa "gamau rhesymol" eraill, ac eithrio'r rhai y mae'r Bil yn eu mynnu'n benodol, y gallai Gweinidogion Cymru eu cymryd i sicrhau darpariaeth addysg awyr agored breswyl.

**79.** Rydym yn cytuno â'r Aelod sy'n gyfrifol, fodd bynnag, nad yw geiriau fel hyn yn anarferol o fewn deddfwriaeth, ac rydym yn fodlon ar eu cynnwys.

[54] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion [98]
[55] Memorandwm Esboniadol, tudalen 64, colofn 6
[56] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 22 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [44]

**80.** Rydym yn nodi barn y Gweinidog bod y cynnig y byddai'r Cod ochr yn ochr â'r tri chod arall a ddyroddir o dan Ddeddf 2021 yn cyflwyno lefel o fanylder, neu "*granularity*", sy'n bell o'r trefniadau presennol.

**81.** Rydym hefyd yn cydnabod sylwadau'r Aelod sy'n gyfrifol mewn cysylltiad â phwysigrwydd tybiedig y materion y rhagwelir y byddant yn cael eu nodi yn y Cod, yn erbyn materion a nodir yn y codau eraill a ddyroddir o dan Ddeddf 2021. Mae materion o'r fath yn ymwneud â pholisi a darpariaeth y cwricwlwm. O ystyried ein cylch gorchwyl, nid ydym mewn sefyllfa i gynnig sylwadau o sylwedd.

**82.** Rydym yn nodi'r dystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol a'r Gweinidog mewn cysylltiad â chymhwyso gweithdrefn graffu negyddol y Senedd i'r Cod, ac rydym yn fodlon.

## Adran 1(3) – Dyletswydd i ddyroddi canllawiau mewn cysylltiad ag addysg awyr agored breswyl

**83.** Mae adran 1(3) o'r Bil yn mewnosod adran 71A newydd yn Neddf 2021 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau mewn cysylltiad â darparu addysg awyr agored breswyl.

**84.** Yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r Aelod sy'n gyfrifol yn dweud mai'r canllawiau fydd "y prif fecanwaith y gall Llywodraeth Cymru ei ddefnyddio i nodi'r manylion o ran sut y caiff y Bil ei roi ar waith yn ymarferol."[57]

**85.** Yn y datganiad o fwriad y polisi mae'r Aelod sy'n gyfrifol yn darparu'r cyfiawnhad a ganlyn dros y cynnig i gynnwys manylion o fewn canllawiau, yn hytrach nag ar wyneb y Bil:

> *"Efallai y bydd angen i Weinidogion Cymru ddiwygio'r canllawiau er mwyn adlewyrchu amgylchiadau newidiol yn y sector addysg neu'r sector addysg awyr agored breswyl ac felly mae'n fwy priodol i'r manylion gael eu cynnwys mewn canllawiau yn hytrach nag ar wyneb y Bil."*[58]

**86.** Mewn perthynas ag adran 71A newydd, yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Gweinidog y canlynol:

> *"Mae'r pŵer [presennol] i lunio canllawiau o dan adran 71 [o fewn Deddf 2021] yn bŵer yn hytrach na dyletswydd h.y. mae'n ddewisol. Nid yw'n briodol troi'r pŵer dewisol i lunio canllawiau*

---

[57] Memorandwm Esboniadol, paragraff 123
[58] Datganiad o fwriad y polisi, tudalen 4

*yn bŵer mandadol i lunio canllawiau at ddibenion addysg awyr agored breswyl. Petai angen pŵer mandadol i lunio canllawiau, dylai fod yn ddarpariaeth annibynnol ac ni ddylai fod yn gysylltiedig ag adran 71. Byddai adran 71A arfaethedig yn cyflwyno anghysondeb yn y dull o ymdrin â phwerau i lunio canllawiau yn Neddf 2021. Nid yw'n glir pam mae canllawiau ar addysg awyr agored breswyl yn cael eu trin yn wahanol i ganllawiau ar faterion pwysig eraill yn y cwricwlwm newydd e.e. Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb neu unrhyw un o'r meysydd dysgu a phrofiad. Fel y mae, mae'r Bil yn rhoi darlun dryslyd a chamarweiniol i'r darllenydd.”*[59]

**87.** Mae adran 71A(3) newydd yn nodi’r hyn y mae’n rhaid i ganllawiau ei wneud, a’r hyn y cânt ei wneud. Mae’r adran, er enghraifft, yn darparu’r canlynol o ran canllawiau:

- rhaid iddynt ddarparu nad yw addysg awyr agored breswyl yn orfodol i ddisgyblion ei mynychu; a
- cânt nodi’r oedran neu’r oedrannau, neu’r flwyddyn ysgol neu’r blynyddoedd ysgol, pan fwriedir darparu addysg awyr agored breswyl.

**88.** Dywedodd y Gweinidog yn ei dystiolaeth ysgrifenedig nad oedd cynnwys darpariaethau sy’n nodi nad oedd yr hyn y mae’n rhaid i ganllawiau ei wneud yn “briodol gan mai dim ond cyngor y gall canllawiau ei gynnwys, nid gofynion.”[60] Dywedodd y canlynol hefyd:

*“… ni ddylid cynnwys y fath gyfyngiadau ar bŵer Gweinidogion Cymru i lunio canllawiau. Mae natur y pwerau i lunio canllawiau yn golygu bod yn rhaid iddynt gael eu defnyddio i helpu'r rhai â swyddogaethau i arfer y swyddogaethau hynny yn well. Er mwyn gwneud hyn, mae angen sicrhau bod gan y canllawiau y cyfle i ddatblygu dros amser.”*[61]

**89.** Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd y Gweinidog wrthym fod cynnwys y ddarpariaeth hon yn “anarferol”. Ymhelaethodd:

---

[59] LJC(6)-03-24, Papur 18 – Papur Tystiolaeth – Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru), Rhagfyr 2023, paragraff 6.21
[60] LJC(6)-03-24, Papur 18 – Papur Tystiolaeth – Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru), Rhagfyr 2023, paragraff 6.23
[61] LJC(6)-03-24, Papur 18 – Papur Tystiolaeth – Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru), Rhagfyr 2023, paragraff 6.25

> *"… mae'r Bil, fel rŷch chi'n ei ddweud, yn dweud dau beth: yr hyn y gellir ei ddodi mewn canllawiau, sydd yn fine, a wedyn yr hyn mae gofyniad i'w ddodi mewn canllawiau. Felly, mae hyn yn golygu nad yw'r Bil yn cynnig system o graffu gan y Senedd ar y canllawiau, gyda llaw. Felly, mae gyda chi elfennau gofynnol yn y canllawiau lle mae Gweinidogion yn gwneud pethau gofynnol, ond dyw e ddim yn rhan o broses craffu ychwanegol yn y Senedd, yw'r peth cyntaf ddywedwn i. Felly, mae hynny, byddwn i'n dadlau, yn annymunol."*[62]

**90.** Mewn ymateb i farn y Gweinidog, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol y canlynol wrthym:

> *"As a principle, I certainly see nothing wrong at all with providing guidance and then providing what should be in that guidance—I think that's completely appropriate within legislation. …*
>
> *I can't see anything within there [the provisions in respect of what guidance 'must' do] that would be omitted from guidance, and I don't see anything in there that is unreasonable or untoward …".*[63]

**91.** Mewn gohebiaeth ddilynol, rhoddodd yr Aelod sy'n gyfrifol enghreifftiau o ddarpariaethau deddfwriaethol sy'n gorfodi elfennau penodol i gael eu cynnwys mewn canllawiau. Roedd yr enghreifftiau a ddarparwyd, o Ddeddfau gan y Senedd a Deddfau gan Senedd y DU, o ddarpariaethau a oedd yn gorfodi Gweinidogion i ddyroddi canllawiau am faterion penodedig, fel:

- adran 2(3)(a) o *Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023* sy'n darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi canllawiau ynghylch y cynhyrchion plastig untro a waherddir o dan y Ddeddf honno;
- adran 9(5) o *Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023* sy'n darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau ynghylch cyfansoddiad yr is-grŵp caffael cyhoeddus a sefydlir o dan y Ddeddf honno; ac

[62] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 22 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [47]
[63] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion [66]

- adran 134(5) o *Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022* sy'n darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ynghylch y ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo corff neu unigolyn at ddibenion yr adran honno o'r Ddeddf.[64]

**92.** Noda'r Memorandwm Esboniadol na fydd y canllawiau'n ddarostyngedig i weithdrefn graffu yn y Senedd. O dan adran 71 o Ddeddf 2021, bydd yn ofynnol, fodd bynnag, i Weinidogion Cymru ymgynghori ar y canllawiau cyn y caniateir eu dyroddi.[65]

**93.** Dywedodd y Gweinidog wrthym ei fod yn fodlon ar y ffaith nad oedd gweithdrefn graffu'r Senedd yn cael ei chymhwyso i'r canllawiau.[66]

### Rhaid i'r canllawiau ddarparu y caiff addysg awyr agored breswyl ei darparu yn Gymraeg, cyn belled â'i bod ar gael, pan fo ysgol yn gwneud cais am hynny

**94.** Mae adran 71A(3)(d) newydd yn nodi bod yn rhaid i'r canllawiau ddarparu y caiff addysg awyr agored breswyl ei darparu yn Gymraeg, cyn belled â'i bod ar gael, pan fo ysgol yn gwneud cais am hynny.

**95.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd y ddarpariaeth:

> *"… yn cyd-fynd â'r egwyddor a dderbynnir yn gyffredinol y dylai dysgwyr dderbyn addysg yn eu dewis iaith, sef Cymraeg neu Saesneg. Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar gapasiti ac argaeledd. Mae 23% o ddisgyblion yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, er bod y gyfran a ddywedodd eu bod yn gallu ei siarad yn 40% yng nghyfrifiad 2011 a 34% yng nghyfrifiad 2021. Ac eithrio gwersylloedd yr Urdd yng Nglan Llyn a Llangrannog, mae'r capasiti i ddarparu cyrsiau addysg awyr agored breswyl drwy gyfrwng y Gymraeg wedi'i gyfyngu i lond llaw o ddarparwyr eraill yn unig."*[67]

**96.** Gofynasom i'r Aelod sy'n gyfrifol a oedd yn ystyried bod tensiwn wrth ddrafftio'r ddarpariaeth hon. Yn ei ymateb, dywedodd fel a ganlyn:

> *"I recognise the blunt language of a piece of legislation perhaps doesn't convey as well as I would like the intention behind that. The reality is at the moment the availability of this provision in*

[64] Llythyr oddi wrth Sam Rowlands AS, 12 Chwefror 2024
[65] Memorandwm Esboniadol, tudalen 63, colofn 6
[66] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 22 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [74]
[67] Memorandwm Esboniadol, paragraff 138

> *Welsh isn't at the level that we need for every school that wants to access it in Welsh. So, I think the legislation is currently reflecting reality in terms of what is available out there. … whilst the provision isn't available at the moment, there's a journey being undertaken [towards increasing provision] …”.*[68]

**97.** Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol y canlynol wrthym hefyd:

> *“… at the moment, there's nothing within legislation or guidance or anything that says that it should be provided in Welsh. So, this is a million times better than what currently exists, which is that there's nothing in place at the moment that says it should be provided in Welsh. So, I think this does significantly strengthen the experience that children and young people could and will have.*
>
> *… as that capacity increases, as it currently is increasing at the moment for provision in Welsh, a Minister could strengthen that guidance to reflect what is able to be delivered. But this is certainly an incentive for more of this provision to be made available in Welsh. At the moment, apart from it being the right thing to do, there isn’t a legislative incentive for it to happen.”*[69]

## Ein barn ni

**98.** Rydym yn nodi’r dystiolaeth gan yr Aelod sy’n gyfrifol a’r Gweinidog mewn cysylltiad ag adran 1(3) o’r Bil.

**99.** Yn benodol, rydym yn nodi barn yr Aelod sy’n gyfrifol, fel y’i darperir yn y datganiad o fwriad y polisi, ei bod yn fwy priodol i fanylion gael eu cynnwys mewn canllawiau yn hytrach nag ar wyneb y Bil “er mwyn adlewyrchu amgylchiadau newidiol yn y sector addysg neu’r sector addysg awyr agored breswyl”.

**100.** Fodd bynnag, gan fod y Bil fel y’i drafftiwyd yn cynnwys gofynion rhagnodedig y mae’n rhaid eu nodi mewn canllawiau, fel datgan nad yw’n orfodol i ddisgyblion fynd i addysg awyr agored breswyl, nid yw’n glir i ni pam nad yw’n briodol i ddarpariaeth o’r fath gael ei rhoi ar wyneb y Bil.

[68] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 5 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion [75–76]
[69] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 5 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion [76, 86]

**101.** Rydym yn nodi barn yr Aelod sy'n gyfrifol ei bod yn briodol ei gwneud yn ofynnol i gynnwys darpariaeth benodol o fewn canllawiau. Rydym hefyd yn nodi'r enghreifftiau y mae wedi'u darparu inni o ddarpariaethau sy'n gorfodi elfennau penodol i gael eu cynnwys mewn canllawiau.

**102.** Credwn, fodd bynnag, fod yr enghreifftiau a roddwyd ond yn nodi darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ganllawiau gwmpasu pynciau penodol, er enghraifft, cynhyrchion plastig untro a waherddir o dan *Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023*, yn hytrach na darpariaeth sy'n cynnwys gofynion rhagnodedig y mae'n rhaid eu nodi mewn canllawiau, er enghraifft, nad yw'n orfodol i ddisgyblion fynd i addysg awyr agored breswyl.

**103.** Felly, nid ydym yn credu bod yr enghreifftiau a ddarparwyd gan yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno cymhariaeth berthnasol â darpariaethau'r Bil. Gan nad ydym yn ymwybodol o ddarpariaethau eraill mewn deddfwriaeth sy'n cael yr un effaith â darpariaethau'r Bil, nid ydym wedi ein hargyhoeddi ei bod yn briodol eu cynnwys.

**Argymhelliad 3.** Dylid diwygio'r Bil i:

- ddileu'r cyfeiriadau at ofynion rhagnodedig y mae'n rhaid eu nodi mewn canllawiau o adran 71A newydd o *Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021*, i'w mewnosod gan adran 1(3); a
- mewnosod y gofynion rhagnodedig hynny, ar ffurf briodol, yn adran 64A newydd o *Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021*, i'w mewnosod gan adran 1(2).

**104.** Rydym yn cyd-fynd â barn y Gweinidog nad yw'n briodol troi'r pŵer gwneud canllawiau dewisol presennol o fewn adran 71 o Ddeddf 2021 yn bŵer gwneud canllawiau gorfodol at ddibenion addysg awyr agored breswyl. Credwn felly y dylai'r Aelod sy'n gyfrifol ailedrych ar ddull drafftio adran 71A(1) newydd o Ddeddf 2021; yn enwedig os yw'n derbyn argymhelliad 3, gan na fydd gofynion rhagnodedig mwyach y mae'n rhaid eu nodi mewn canllawiau a ddyroddir o dan yr adran honno.

**Argymhelliad 4.** Yn sgil argymhelliad 3, dylai'r Aelod sy'n gyfrifol ystyried a oes angen i adran 71A(1) newydd o Ddeddf 2021 osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau ar addysg awyr agored breswyl. Os bernir bod angen dyletswydd i ddyroddi canllawiau, dylid cynnwys dyletswydd o'r fath fel darpariaeth annibynnol yn Neddf 2021, nad yw'n gysylltiedig ag adran 71, a dylid diwygio'r Bil yn unol â hynny.

**105.** Rydym yn nodi'r dystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol mewn cysylltiad ag adran 71A(3)(d) newydd o Ddeddf 2021, fel y'i mewnosodwyd gan adran 1(3) o'r Bil, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ganllawiau ddarparu y caiff addysg awyr agored breswyl ei darparu yn Gymraeg, cyn belled â'i bod ar gael, pan fo ysgol yn gwneud cais am hynny.

**106.** Rydym yn cydnabod barn yr Aelod sy'n gyfrifol nad oes digon o gapasiti yn y sector ar hyn o bryd i fodloni'r galw am ddarparu addysg awyr agored breswyl yn Gymraeg. Rydym hefyd yn cydnabod ei farn nad oes darpariaeth ar hyn o bryd mewn deddfwriaeth na chanllawiau sy'n nodi y dylid darparu addysg o'r fath yn yr iaith.

**107.** Rydym o'r farn, fodd bynnag, y gallai'r cafeatau yn y ddarpariaeth yn y Bil – y dylid darparu addysg awyr agored breswyl yn Gymraeg "cyn belled â'i bod ar gael" "pan fo ysgol yn gwneud cais am hynny" – gyfyngu ar ei heffeithiolrwydd.

**Argymhelliad 5.** Er mwyn sicrhau effeithiolrwydd darpariaethau'r Bil, dylai'r Aelod sy'n gyfrifol ystyried a ddylid diwygio'r Bil i ddileu'r cyfeiriadau at "cyn belled â'i bod ar gael" a "pan fo ysgol yn gwneud cais am hynny" o adran 71A(3)(d) newydd o *Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021*, fel y'i mewnosodwyd gan adran 1(3) o'r Bil.

## Adran 2 – Cyllid ar gyfer addysg awyr agored breswyl

**108.** Mae adran 2 o'r Bil yn mewnosod adran 64B newydd yn Neddf 2021 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru dalu digon o gyllid i awdurdod lleol i'w alluogi i ddarparu addysg awyr agored breswyl o dan y Ddeddf, fel y'i diwygiwyd gan y Bil.

**109.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi'r esboniad a ganlyn dros gynnwys y gofyniad hwn yn y Bil:

> *"Un ystyriaeth drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r Bil fu sicrhau, cyn belled ag y bo modd, nad oes rhaid i unrhyw gostau ychwanegol o'r hawl i addysg awyr agored breswyl, yn rhad ac am ddim i ddisgyblion, gael eu talu o gyllidebau presennol awdurdodau lleol neu ysgolion."*[70]

**110.** Gofynasom i'r Gweinidog am ei farn ynghylch a oedd yn credu bod y ddarpariaeth hon yn briodol. Yn ei ymateb, dywedodd fel a ganlyn:

[70] Memorandwm Esboniadol, paragraff 145

> *"Yn y cyd-destun ariannol sydd arnom ni, mae gofyniad ariannol gwbl newydd a dyletswydd i ariannu hynny yn her sydd tu hwnt i'n gallu ni. Byddai'r arian sydd yn dod i ariannu hyn yn dod, mewn gwirionedd, o elfen arall o'r gyllideb addysg sydd yn gwneud gwaith ar hyn o bryd mwy elfennol o ran y pwysau sydd ar gyllidebau pobl.*
>
> *… mae'r ffaith bod gennych chi ofyniad penodol i ariannu rhywbeth yn digwydd mewn deddfwriaeth o bryd i'w gilydd beth bynnag, ond beth mae'n ei greu yw blaenoriaeth ariannu ar gyfer yr elfen hon o'r gyllideb yn y dyfodol. Felly, dyw'r egwyddor ddim yn un sydd yn rhywbeth y gallwn ni ei wrthwynebu — dyw hi ddim yn digwydd yn aml iawn, gyda llaw, fod y peth yn benodol yn y ffordd yma — ond mae'n clymu dwylo Llywodraethau yn y dyfodol, fydd yn golygu y bydd pethau eraill yn gorfod cael eu tanariannu er mwyn sicrhau hwn, a dyw hynny ddim yn ddymunol, dwi ddim yn credu, o ran rhywbeth o'r math yma."*[71]

**111.** Gofynasom hefyd am gyfiawnhad gan yr Aelod sy'n gyfrifol am gynnwys y ddarpariaeth hon. Dywedodd wrthym ei fod yn cydnabod ei bod yn ddarpariaeth "anarferol" i'w chynnwys mewn Bil, ond aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

> *"… we're just trying to find a way of ensuring first of all that funding is made available for this provision and pointing to the fact that it doesn't have to come from an education pot or an education budget. I think, as Members, we may get frustrated from time to time when we hear Ministers perhaps seemingly working in silos and not considering how what they're delivering is affected by other Government departments, and it strikes me that something like this, residential outdoor education, is likely to have a level of impact on the mental health of our young people by being out and experiencing the great outdoors that we have to offer in Wales—certainly physical health. Neither of those two strict budgets sit within an education budget. There's evidence that residential outdoor education experiences certainly awaken young people to the impacts of climate*

[71] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 22 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [55, 57]

*change and the impact on our environment. So, there's a climate change budget there as well.*

*It's really a way within legislation of trying to get Governments and Ministers to think of ways this can be funded without it strictly having to come from one pot. I'm certainly willing to hear from the Minister whether he would be willing to commit to this."*[72]

**112.** Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym hefyd ei fod yn fodlon ystyried addasu neu ddileu'r ddarpariaeth os yw'n faes deddfwriaeth sy'n peri trafferth.[73]

### Ein barn ni

**113.** Rydym yn nodi'r dystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol a'r Gweinidog mewn cysylltiad ag adran 2 o'r Bil.

**114.** Yn benodol, rydym yn nodi barn yr Aelod sy'n gyfrifol bod cynnwys y ddarpariaeth hon yn "anarferol"; fodd bynnag, fel y dywed y Gweinidog, mae gofyniad penodol i ariannu mater penodol "yn digwydd mewn deddfwriaeth o bryd i'w gilydd".

**115.** Er nad ydym yn credu bod cynnwys y ddarpariaeth hon yn gyfansoddiadol amhriodol, mae'n codi cwestiynau o ran ariannu'r gwaith o gyflawni polisïau. O ystyried ein cylch gorchwyl, fodd bynnag, nid ydym mewn sefyllfa i gynnig rhagor o sylwadau o sylwedd.

## Adran 5 – Dod i rym

**116.** Mae adran 5 o'r Bil yn darparu y daw adran 1 ac adran 3 i rym dri mis ar ôl i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol.

**117.** Mae adrannau 64A(6) a 71A(2) newydd o Ddeddf 2021, fel y'u mewnosodwyd gan adran 1 o'r Bil, yn darparu bod yn rhaid i'r Cod a'r canllawiau gael eu dyroddi o fewn blwyddyn i'r adrannau hynny ddod i rym.

**118.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod blwyddyn yn gyfnod afrealistig o fyr i gyd-ddatblygu cod gyda phartïon a chanddynt fuddiant, a'i wneud yn

[72] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion [42–43]
[73] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion [43]

ddarostyngedig i waith ymgynghori, datblygu a chraffu llawn,[74] ac y byddai'n synhwyrol estyn y cyfnod hwn.[75]

**119.** Gofynnwyd i'r Aelod sy'n gyfrifol nodi ei gyfiawnhad dros yr amserlenni a ddarperir yn y Bil. Dywedodd y canlynol wrthym:

> *"I appreciate it may feel like a tight timescale, but there's nothing quite like a sense of urgency to get something over the line. It's not an overly complicated … piece of legislation … there is a level of legwork [and consultation over a period of 18 months] that's already been undertaken. …*
>
> *So, there's a level of awareness out there, a level of eagerness to see this delivered quickly. And I think the lack of complexity within the Bill would enable it to take place within that 15 months. Now, I guess the one to compare it with would be the elements within the RSE code that, I think, were probably more controversial than some of the elements to people in some parts of Wales. I don't expect the same level of controversy over the ability for children to have some time away with their classmates."*[76]

## Ein barn ni

**120.** Rydym yn nodi'r dystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol a'r Gweinidog mewn cysylltiad â'r amserlenni a bennwyd gan y Bil ar gyfer datblygu'r Cod a'r canllawiau.

**121.** Rydym yn cydnabod barn yr Aelod sy'n gyfrifol bod awydd i ddatblygu'r agweddau hyn mewn modd amserol. Fodd bynnag, yn sgil sylwadau'r Aelod sy'n gyfrifol y bydd y Cod a'r canllawiau'n sylfaenol i weithrediad effeithiol y Bil, mae'n ymddangos i ni y gallai cyfnod o flwyddyn fod yn annigonol i sicrhau bod yr elfennau hyn yn cael eu datblygu a'u bod yn destun ymgynghoriad llawn cyn eu cyhoeddi.

**Argymhelliad 6.** Yn sgil sylwadau'r Gweinidog, dylai'r Aelod sy'n gyfrifol ystyried a ddylid diwygio'r Bil i estyn y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid dyroddi'r Cod Addysg Awyr Agored Breswyl a'r canllawiau cyntaf.

[74] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 22 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [34]
[75] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 22 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [36]
[76] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion [104–105]